

Ysgol Waunfawr

POLISI GWRTH FWLIO TECHNOLEGOL (Cyberbullying)

Mae bwlio technolegol (cyberbullying) yn ddull difrifol o fwlio.

Diffiniad

Gwelir gwrthfwlio technolegol fel gweithred fwriadol ac ymosodol gan unigolyn neu gan griw sy'n defnyddio cyswllt electroneg, yn gyson tros amser, yn erbyn unigolyn nad yw'n medru amddiffyn ef/hi ei hun.

Gall fwlio technolegol cynnwys defnydd amrhiodol o'r canlynol:-

- Neges destun;
- Llun/clip-fideo;
- Galwadau ffôn symudol;
- E-bostio;
- Sgwrsio 'chat-room';
- Rhannu ffeiliau trwy gyfrwng Bluetooth;
- Safweoedd.

Disgwyliadau'r ysgol

- fod rhaglenni gwaith a chwricwlwm technoleg gwybodaeth yn hybu ac yn pwysleisio dilyniant a datblygiad cadarn a ddiogel mewn meysydd technoleg gyfathrebol;
- fod disgyblion yn parchu eraill trwy ddefnyddio'r dechnoleg yn gyfrifol ac i dderbyn cyfrifoldeb am ddiogelwch a chyfrinachedd y systemau o fewn yr ysgol.
- fod rhaglen o hyfforddiant ar arferion da yn y maes yn weithredol ar gyfer pob aelod o staff ysgol;
- fod dulliau rhwystro mynediad yn weithredol, a bod y rhain yn cael eu diweddarau'n gyson;
- fod goruchwyliaeth ddigonol a monitro'r defnydd a wneir o'r rhyngwyd ac e-bost;
- fod polisi penodol ynglŷn â ffonau symudol yn weithredol, ac ar adegau eraill pan mae'r disgyblion dan ofal yr Ysgol;
- fod rhieni yn llawn ymwybodol o bolisi ac arferion da'r Ysgol, gan godi eu hymwybyddiaeth o ddatblygiadau cyfoes yn y maes a hawliau'r ysgol i fonitro'r defnydd a wneir gan eu plant o dechnoleg gyfathrebol.
- fod y polisi a'r ddogfennaeth gysylltiedig yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â threfn adolygu gytunedig yr Ysgol.

Dyddiad mabwysiadu:- Tymor yr Hydref 2011

Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr:-

Dyddiad ail-ymweld:- Tymor yr Hydref 2014

POLISI DEFNYDDIO FFONAU SYMUDOL

YSGOL WAUNFAWR

Nôd

Mae gan bob ysgol ddyletswydd fugeiliol tuag at ei disgyblion a thrwy hynny, mae'r ysgol hon yn hyrwyddo atal camdriniaeth ac esgeulustod trwy greu a chynnal awyrgylch ddiogel i'w disgyblion.

Mae'r ysgol hon o'r farn fod bwlio technolegol/cyfathrebol yn sefyll ochr yn ochr â ffurfiau eraill o fwlio.

O ganlyniad ni ellir caniatáu defnyddio ffonau symudol gan ddisgyblion tra ar safle'r Ysgol.

(Gall llywodraethwyr cynnwys eithriadau i'r rheol yn y fan hyn ac, yn dilyn arweiniad cadarn o dŷ'r heddlu, ystyried cynnwys gweithdrefnau mewnol cytunedig ynglŷn â chadw ffonau symudol mewn manau diogel canolog yn ystod y dydd er mwyn lleihau posibiladau o ladrad)

Mi fydd yr Ysgol yn codi ymwybyddiaeth rheini, disgyblion a staff o safbwynt y llywodraethwyr.

Trefn Disgyblu

Pe bai disgybl yn defnyddio ffôn symudol tra ar safle'r Ysgol mi fydd yn derbyn cosb yn unol â pholisi 'Rheoli Ymddygiad Disgyblion' yr Ysgol. Mi fydd disgwyl i'r unigolyn cadw ei (ffôn, wedi'i diffodd mewn man ddiogel a ddarperir gan yr Ysgol i'r pwrpas hwnnw. Dychwelir y ffôn symudol ar derfyn y diwrnod ysgol.

Os bydd y disgybl yn torri'r rheol am yr ail-dro cedwir y ffôn hyd nes bydd rhiant wedi dod i'r ysgol i'w nôl.

Mabwysiadwyd :

Pennaeth : Gwenan Williams

Cadeirydd y Corff Llywodraethol : Mrs Delyth Roberts

Dyddiad : Tachwedd 17eg 2011

Dyddiad Adolygu : Tymor yr Hydref 2014

Polisi Defnyddio Ffonau Symudol i Staff Ysgolion

Nôd

Cynnig canllawiau ar gyfer staff, er lles eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, a hefyd i bwrpas rheoli camddefnyddio offer yn ystod oriau gwaith.

Canllawiau –

- Ni ddylid defnyddio ffôn symudol personol yn ystod oriau gwaith oni bai bod argyfwng.
- Pan fo raid defnyddio ffôn symudol i wneud galwad bersonol, argyfyngol, dylid cadw'r alwad yn fyr.
- Dylid diffodd ffonau symudol yn ystod amser gwersi, seminarau, cyrsiau, a hyfforddiant yn ystod oriau gwaith. Lle cyfyd sefyllfa, mewn amgylchiadau arbennig, gellir gofyn i staff gweinyddol dderbyn galwadau brys ar eich rhan.
- Ni ddylid defnyddio ffôn symudol wrth ddefnyddio offer arall ar unrhyw gyfrif.

Adolygir y polisi hwn bob tair blynedd gan y Corff Llywodraethol.

Yr Ochr Gyfreithiol –

O dan Adran 1 o'r Ddeddf Cyfathrebu'n Faleisus 1998, mae'n dor-cyfraith anfon neges amheus, anwedus neu bygythiol i unrhyw berson, boed yn lythyr ysgrifenedig neu'n electroneg. Yn yr un modd mae'n anghyfreithlon anfon neges o'r fath ar y ffôn hefyd.

Y gosb am dor-cyfraith o'r math hwn yw uchafswm o 6 mis o garchar, a/neu dirwy hyd at £5000.

Ymhellach, os bydd y neges yn awgrymu y bydd trais y cael ei ddefnyddio yn erbyn y diffynnydd, gall y gosb fod hyd at 5 mlynedd o garchar. Os bydd y neges yn hiliol gall y gosb fod hyd at 7 mlynedd

Mabwysiadwyd :

Pennaeth : Gwenan Williams

Cadeirydd y Corff Llywodraethol : Mrs Delyth Roberts

Dyddiad : Tachwedd 17eg 2011

Adolygir : Tymor yr Hydref 2014

Bwlio Technolegol -Côd Ymarfer i Ddisgyblion

(gellir addasu'r rhain yn ôl y gofyn ac yn ôl yr oedran)

- Os rydych yn cael eich bwlio'n gyfathrebol yn yr ysgol, siaradwch â – pennaeth blwyddyn neu eich athro/awes ddosbarth.

- Cofiwch gall achos difrifol o fwlio cael ei gyfeirio at yr heddlu.
- Cadwch unrhyw neges neu lun bygythiol neu anwedus fel tystiolaeth.
- Cadwch ddyddiadur ac unrhyw dystiolaeth arall os rydych yn cael eich bwlio.
- Newidiwch rif eich ffôn symudol, a'i roi i ffrindiau agos yn unig.
- Cysylltwch â'r darparwr gwasanaeth – gall y cwmni eich helpu i ddal y bwli.
- Ystyriwch ddefnyddio dulliau rhwystro (blocio), e.e. meddalwedd i rwystro e-byst maleisus, neu hidlen (filter).
- Peidiwch ag ymateb i negeseuon, gall hyn wneud pethau'n waeth. Mae ateb neges yn ei gwneud hi'n haws i'r bwli, a bydd yn diflasu'n gynt o lawer os byddwch chi'n anwybyddu'r neges.
- Byddwch yn fynwesol ac yn gwrtais bob amser wrth gyfathrebu'n electroneg.
- Cyfeiriwch unrhyw fynediad damweiniol i safweoedd anaddas i berson cymwys.
- Newidiwch eich ffugenw a'ch cyfrinair yn aml os yw hynny'n ymarferol posib– mae hyn yn gwneud pethau'n anoddach i'r bwli.
- Peidiwch â rhoi manylion personol ar lein. Mewn stafelloedd sgwrsio, gall ddatgelu eich cyfeiriad, eich ysgol ayyb, roi gwybodaeth ddefnyddiol iawn i'r bwli.
- Peidiwch ag anfon manylion/negeseuon anwedus ymlaen i berson arall. Os ydi'r manylion yn cyfeirio atoch chi, cadwch y manylion, fel arall dileu yw'r gorau, a pheidio ag ymateb.
- Peidiwch ar unrhyw gyfrif datgelu cyfrinair na cyfrin-rif o'ch ffôn symudol neu o'ch cyfrif e-bost. Cofiwch hefyd fod anfon negeseuon anwedus a bygythiol yn anghyfreithlon.

Canllawiau – Defnydd Cyfrifol o'r Rhyngrwyd (Cynradd)

Mae'r rhyngrwyd yn cynnig ei hun fel arf pwerus iawn ym myd addysg - arf sydd yn cynorthwyo plant a disgyblion i ehangu eu gorwelion dysgu mewn ysgolion ac yn y cartref. Mae angen fodd bynnag, i'r cyfrwng hwn gael ei ddefnyddio'n ddiogel.

Mae'r canllawiau isod yn ein cynorthwyo i fod yn gyfrifol yn hyn o beth:-

- Os oes rhwydwaith yn y sefydliad, yna mae gofyn i ddisgyblion gofio enw mewngofnodi a chyfrinair eu hunain yn unig, a'u cadw'n gyfrinachol.
- Os yn bosib, dylid goruchwyllo sefyllfaoedd yn ofalus pan fydd disgyblion yn defnyddio'r we, ac fe ddylid gosod cyfrifiaduron mewn manau gweledig sydd yn hawdd i'w goruchwyllo.
- Dylid gwirio safweoedd y bydd y disgyblion yn eu defnyddio cyn rhoi caniatâd. Yn yr un modd, gellid gosod cysylltiadau i safweoedd addas ymlaen llaw fel bod mynediad iddynt yn hyblyg a pharod.
- Dylid parchu ffeiliau disgyblion eraill ar gyfrifiaduron.
- Wrth 'chwilota' ar y we, mae angen i athrawon sicrhau, o flaen llaw, diogelwch y drefn 'chwilio', gan fonitro a goruchwyllo'r sesiynau hyn yn ofalus.
- Mae angen sicrhau fod disgyblion yn ymwybodol y gall athrawon fonitro (a chofnodi) ffeiliau a'r safweoedd y maent wedi ymweld â hwy.
- Os oes gan yr ysgol safwe, ni roddir lluniau unigol nag enwau plant ar y safwe hwnnw. Yn yr un modd, ni roddir caniatâd i ddisgyblion ddefnyddio ystafelloedd sgwrsio.
- Mae angen codi ymwybyddiaeth o'r peryglon sydd ynghlwm â defnyddio e-byst, yn arbennig felly wrth gyfathrebu gyda dieithriaid.
- Mae'n bwysig cofio anfon negeseuon cwrtais a synhwyrol bob amser, gan drafod a dangos e-byst yn gyntaf i athrawon cyn eu hanfon.
- Pan dderbynnir e-byst gan ddieithriaid, neu e-byst sy'n cael eu hystyried fel rhai amheus, rhaid tynnu sylw'r athro/athrawes yn gyntaf.
- Mae'n bwysig fod athrawon yn ymwybodol o reolau 'hawlfraint' wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.
- Nid yw disgyblion ar unrhyw achlysur i basio gwybodaeth bersonol tros y we, e.e. rhifau ffôn, cyfeiriadau, lluniau/ffotograffau, ac nid yw disgyblion i drefnu cyfarfod â neb.
- Dylid mabwysiadu canllawiau yn yr ysgol i sicrhau fod pob camddefnydd o'r rhyngrwyd neu gyfrifiadur yn cael ei ddelio ag o'n briodol.

★ gellir golygu a/neu ychwanegu at yr uchod yn ôl amgylchiadau pob ysgol.

Yr Ochr Gyfreithiol –

O dan Adran 1 o'r Ddeddf Cyfathrebu'n Faleisus 1998, mae'n dor-cyfraith anfon neges amheus, anwedus neu bygythiol i unrhyw berson, boed yn lythyr ysgrifenedig neu'n electroneg. Yn yr un modd mae'n anghyfreithlon anfon neges o'r fath ar y ffôn hefyd.

Canllawiau – Defnydd Cyfrifol o'r Rhyngrwyd (Uwchradd)

Mae'r rhyngrwyd yn cynnig ei hun fel arf pwerus iawn ym myd addysg - arf sydd yn cynorthwyo plant a disgyblion i ehangu eu gorwelion dysgu mewn ysgolion ac yn y cartref. Mae angen fodd bynnag, i'r cyfrwng hwn gael ei ddefnyddio'n ddiogel.

Mae'r canllawiau isod yn ein cynorthwyo i fod yn gyfrifol yn hyn o beth:-

- Mae disgwyl i ddisgyblion ymddwyn yn gyfrifol ac yn foesol wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd – disgwylir yr un safon ymddygiad ag y disgwylir yn arferol yn yr ysgol.
- Mae gofyn i ddisgyblion gofio enw mewngofnodi a chyfrinair eu hunain yn unig, a deall y pwysigrwydd o'u cadw'n gyfrinachol.
- Yn y sector uwchradd bydd disgyblion yn fwy annibynnol wrth ddefnyddio'r we - dylid felly trafod ffiniau ac amodau rhesymol gyda'r disgyblion, yn hytrach na chyfarwyddo a gorfodi.
- Wrth chwilota ar y we, gellir defnyddio dulliau eraill yn ogystal â 'search engines' e.e. 'portals' a 'gateways' - dylid cofio fod monitro gan athrawon yn parhau i fod yn angenrheidiol wrth gwrs.
- Dylid parchu deddfau hawlfraint wrth ddefnyddio'r we.
- Pe bae'r system yn caniatáu, ni ddylai disgyblion llawr lwytho na chodi ffeiliau i'r rhyngrwyd heb ganiatâd yr athro/athrawes.
- Mae posibilrwydd fod disgyblion angen cyfrif e-bost personol ar adegau. Ond fel popeth arall yn y maes, mae angen sicrhau fod disgyblion yn ymwybodol y gall athrawon fonitro (a chofnodi) ffeiliau a'r safweoedd y maent wedi ymweld â hwy.
- Os yn ymarferol gellid gosod cysylltiadau i safweoedd addas ymlaen llaw fel bod mynediad iddynt yn hyblyg a pharod. Ni chaniateir defnyddio'r we yn wastraffus, neu at ddefnydd personol.
- Nid yw disgyblion ar unrhyw achlysur i basio gwybodaeth bersonol tros y we, e.e. rhifau ffôn, cyfeiriadau, lluniau/ffotograffau, ac nid yw disgyblion i drefnu cyfarfod â neb.
- Os gwelir unrhyw ddeunydd anaddas ar y we, dylid ei gyfeirio'n syth i sylw athro/athrawes.
- Mae'n bwysig cofio anfon negeseuon cwrtais a synhwyrol bob amser - ni chaniateir defnyddio safweoedd 'chatrooms' o dan unrhyw amod.
- Ar ddiwedd sesiynau mae'n bwysig fod pob defnyddiwr yn logio i ffwrdd.
- Dylid atgoffa disgyblion y gall defnydd anghyfrifol o'r rhyngrwyd arwain at broses ddisgyblu briodol.

★ gellir golygu a/neu ychwanegu at yr uchod yn ôl amgylchiadau pob ysgol.

Yr Ochr Gyfreithiol –

O dan Adran 1 o'r Ddeddf Cyfathrebu'n Faleisus 1998, mae'n dor-cyfraith anfon neges amheus, anwedus neu bygythiol i unrhyw berson, boed yn lythyr ysgrifenedig neu'n electroneg. Yn yr un modd mae'n anghyfreithlon anfon neges o'r fath ar y ffôn hefyd.

Y gosb am dor-cyfraith o'r math hwn yw uchafswm o 6 mis o garchar, a/neu dirwy hyd at £5000.

Ymhellach, os bydd y neges yn awgrymu y bydd trais y cael ei ddefnyddio yn erbyn y diffynnydd, gall y gosb fod hyd at 5 mlynedd o garchar. Os bydd y neges yn hiliol gall y gosb fod hyd at 7 mlynedd

Esiamplau o achosion a lefelau ymateb priodol

Achos 1.

Mae John yn fachgen 13 oed ac yn ddisgybl yn Ysgol Ynrhywle. Mae cofnod yn yr ysgol iddo gwyno ynglŷn â bwlio cyffredinol yn y gorffennol a'i fod yn anhapus iawn yn ei sgil.

Yn ddiweddar, yn ogystal â'r galw enwau, mae John wedi derbyn sawl (dros 20) neges "text" yn ei sarhau ac yn ei fygwth (un yn bygwth ei ladd).

Ymddengys, o'r cofnod o negeseuon sydd ar ei ffôn, fod y 'texts' yn dod o bedwar gwahanol ffôn. Nid yw John yn adnabod y rhifau. Mae John wedi cadw pob un o'r negeseuon.

Er yn anfodlon ynglŷn â'r sefyllfa nid yw John yn gwybod beth i'w wneud nesa.

Torri'r Ddeddf Aflonyddu 1997

- Harrassment Act 1997 yn nodi " A person must not pursue a course of conduct which amounts to the harassment of another or whom he knows or ought to know"
- Diffinnir aflonyddu fel " Harassment is defined as alarming the person or causing that person distress"
- Felly mae'n bosibl fod trosedd wedi ei chyflawni os yw'r unigolyn yn credu fod y digwyddiad yn ddigon difrifol i achosi loes neu bryder sylweddol. Mae'n dibynnu ar sensitifrwydd yr unigolyn a'i ymateb i'r negeseuon.
- Gellir cyfeirio'r achos i'r heddlu os credir bod y negeseuon yn achosi aflonyddwch.

Achos 2.

Wrth gwblhau ei waith cwrs ar gyfer ei arholiadau TGAU, mae Keith yn cael cryn drafferth canfod ei draethodau Saesneg ar rwydwaith yr ysgol.

Yn dilyn ymchwiliad gan staff yr ysgol, ymddengys i'w waith i gyd gael ei ddileu. Mae'n debyg i'r sawl sy'n gyfrifol am y drosedd gael mynediad i ffolderi Keith trwy ddefnyddio ei gyfrinair.

Er bod copi o amryw ddarn o waith mae'n debyg fod llawer wedi mynd am byth.

Torri'r Ddeddf Diogelu Data

- Mater i reolwr y system gyfrifiadurol nail ai'r ysgol neu'r AALL
- Nid yw'n drosedd felly ni fydd yr Heddlu yn ymwneud â'r achos.

Achos 3.

Mae Margaret yn ferch 15 oed ac yn ddefnyddiwr rheolaidd o safle BEBO. Er yn ferch boblogaidd iawn ar y wyneb, ymddengys fod ymgyrch yn ei herbyn ymysg rhai o ddefnyddwyr y "Gymuned" gyfrifiadurol.

Mae sawl un yn cyfeirio ati fel "slag" a "hŵr" ac mae hyd yn oed cofnod i rywun nodi "I'll piss on your father's grave".

Mae rhieni wedi cysylltu â gweinyddwyr y safle ond mae'r digwyddiadau'n parhau.

Torri'r Ddeddf Aflonyddu 1997

- **Harrassment Act 1997** yn nodi “ A person must not pursue a course of conduct which amounts to the harassment of another or whom he knows or ought to know”
- **Diffinnir aflonyddu fel** “ Harassment is defined as alarming the person or causing that person distress”
- **Felly mae’n bosibl fod trosedd wedi ei chyflawni os yw’r unigolyn yn credu fod y digwyddiad yn ddigon difrifol i achosi loes neu bryder sylweddol. Mae’n dibynnu ar sensitifrwydd yr unigolyn a’i ymateb i’r negeseuon.**
- **Gellir cyfeirio'r achos i’r heddlu os credir bod y negeseuon yn achosi aflonyddwch.**

Achos 4.

Yn ddiweddar derbyniodd Glen, sy’n bennaeth ysgol gynradd, e-bost gan gyn disgybl. Roedd cynnwys y neges yn warthus a cheir sawl sarhad yn cyfeirio at ymddygiad rhywiol y Pennaeth ynddo.

Nid yw natur y neges yn cyd-fynd ag adnabyddiaeth Glen o’r plentyn a phan gafodd gyfle i drafod y broblem â’r plentyn a’i rieni, bu i’r plentyn wadu unrhyw wybodaeth am y neges.

Eglurodd ei bod yn defnyddio cyfeiriad “hotmail.com” a’i bod yn bosib fod rhywun arall wedi camdefnyddio ei chyfrinair er mwyn cael mynediad i’w “bocs post”.

Ni chyflawnwyd trosedd

- **Mater ysgol ac felly achos ymchwiliad mewnol.**
- **Pwysigrwydd pwysleisio cyfrinachedd cyfrineiriau.**

Achos 5.

Mae Alwyn yn fachgen 10 oed ac ym mlwyddyn 6 mewn ysgol gynradd yn y Sir. Mae ganddo ffilm hynod bornograffig ar ei ffôn symudol yn dilyn i’w frawd 14 oed ei anfon ato. Mae natur y ffilm yn warthus ac yn amlwg yn anaddas ar gyfer cynulleidfa mor ifanc. Er hyn, mae Alwyn wedi ei ddangos i amryw o’i gyfoedion gan achosi dychryn a galar i lawer ohonynt.

Mae rhieni plant eraill yn cwyno’n arw am y sefyllfa.

Trosedd os yn groes i Ddeddf Amddiffyn Plant 1978

- **Ni chyflawnwyd trosedd os yw testun y lluniau yn oedolion ond os mai plant dan 18 oed yw’r gwrthrychau yna mae’n goes i Ddeddf Amddiffyn Plant 1978 ac yn fater troseddol**
- **Dylid cyfeirio'r achos dan Reoliadau Amddiffyn Plant i sylw’r Awdurdod Lleol a’r Heddlu.**
- **Dyllir delio gyda’r mater a’r disgyblion eraill yn fewnol a’u cyngori yn y modd mwyaf priodol.**

Achos 6.

Mae Anna yn ferch 14 oed. Dychrynodd pan agorodd ei safle BEBO i ganfod llun o’i wyneb ynghlwm a llun o gorff noeth pornograffig.

Mae ffugenw’r “artist” wrth ymyl y llun ond nid yw’n enw sy’n canu unrhyw gloch.

Mae’r weithred yn amlwg wedi tristau Anna. Yn dilyn cysylltu â BEBO cytunwyd i dynnu’r llun oddi’r wefan a gwahardd y cyfrannwr.

Trosedd os yn groes i Ddeddf Amddiffyn Plant 1978

- Cyfeirio'r achos i'r Heddlu gan fod llun pornograffig wedi ei greu yna mae'n groes i Ddeddf Amddiffyn Plant 1978 ac felly yn fater troseddol
- Dylid cyfeirio'r achos dan Reoliadau Amddiffyn Plant i sylw'r Awdurdod Lleol a'r Heddlu.

Achos 7.

Derbyniodd Mari, sy'n gymhorthydd mewn Uned Addysg Amgen, neges a ffilm trwy gyfrwng ei ffon symudol oddi wrth ffynhonnell ddienw.

Mae'r ffilm yn dangos enghraifft o ymosodiad hollol unochrog a mileinig - "happy-slapping". Gan fod ansawdd y ffilm mor dda, mae'n hawdd adnabod y lleoliad a'r troseddwr.

Gan fod tystiolaeth ar y film fod y dioddefwr wedi'i anafu a'i fod wedi gwaedu, mae Mari'n awyddus i wneud rhywbeth, ond beth?

Torri Deddf "Offences against the Persons Act 1861"

- Ymosodiad wedi digwydd felly trosedd wedi ei chyflawni yn groes i Ddeddf Offences against the Persons Act 1861.
- Yn ogystal dylid gwneud cyfeiriad dan Reoliadau Amddiffyn Plant ac felly yn cael ei ddwyn i sylw'r Heddlu.

Achos 8.

Mae Bethan yn athrawes ifanc ac yn ei blwyddyn gyntaf o ddysgu.

Yn sgil canfod ei rhif ffôn symudol (trwy ei "ddwyn" oddi ar ffôn symudol un o'r athrawon eraill) mae un o'r disgyblion wedi dechrau ffonio ei rhif. Gwnaethpwyd tua 20 galwad dienw i'w ffôn symudol.

Daeth pethau i ben pan adawodd y disgybl neges anweddus ar ei ffôn yn nodi ei ffantasi oedd rhywiol. Yn ffodus pan adawodd y disgybl y neges, anghofiodd ddeialu "141" ac felly mae ei rif cartref wedi ymddangos ar ffôn yr athrawes.

Torri'r Ddeddf Aflonyddu 1997

- Harrasment Act 1997 yn nodi " A person must not pursue a course of conduct which amounts to the harassment of another or whom he knows or ought to know"
- Diffinnir aflonyddu fel " Harassment is defined as alarming the person or causing that person distress"
- Felly mae'n bosibl fod trosedd wedi ei chyflawni os yw'r unigolyn yn credu fod y digwyddiad yn ddigon difrifol i achosi loes neu bryder sylweddol. Mae'n dibynnu ar sensitifrwydd yr unigolyn a'i ymateb i'r negeseuon.
- Gellir cyfeirio'r achos i'r heddlu os credir bod y negeseuon yn achosi aflonyddwch.

Safweoedd defnyddiol:

	<u>I Ysgolion a Disgyblion?</u>	<u>I Rieni?</u>	<u>Disgrifiad byr</u>
www.stoptextbully.com	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cymorth da sut i ddeall ac osgoi bwlio.
www.childnet-int.org	<input type="checkbox"/>		Wedi ei anelu at blant a phobl ifanc.
www.cybersmartcurriculum.org	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Safwe Americanaidd cyffredinol.
www.kidscape.org.uk	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Safwe ddefnyddiol gan elusen i bawb.
www.beyondbullying.com	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Safwe gyffredinol Cyngor Leicester.
www.bbc.co.uk	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cymorth cyffredinol i blant a theuluoedd
www.internetsafetyzone.co.uk	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Deunyddiau da i athrawon a rhieni.
www.thinkuknow.co.uk	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Gwefan CEOP – ar gael yn y Gymraeg
www.nspcc.org.uk	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Safwe gyffredinol i bawb, ar bopeth
www.chatdanger.com	<input type="checkbox"/>		Safwe dda sy'n codi ymwybyddiaeth
www.wiredsafety.org	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Gwefan ddefnyddiol i bawb
www.nch.org.uk	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Cymorth ar sawl agwedd (elusen)
www.childline.org.uk	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Safwe dda, eto'n gysylltiedig â'r NSPCC
www.antibullying.net	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Gwefan o'r Alban i rieni a phlant
www.schools.becta.org.uk	<input type="checkbox"/>		Safwe arbenigol i ddiwydiant ac addysg
www.gridclub.com	<input type="checkbox"/>		Gwefan ddefnyddiol i blant ac athrawon
www.wisekids.org.uk	<input type="checkbox"/>		Gwybodaeth, cefnogaeth a hyfforddiant

Gwefan 'Diogelwch Technolegol'

Adnoddau Dysgu a Phecyn hyfforddiant

Mae CYNNAL, gyda chydweithrediad GCAD (CEOP), am gynhyrchu pecyn amlgyfrwng o adnoddau / gweithgareddau ar y we ar gyfer athrawon CA2 a CA3 yn y maes. Mi fydd y pecyn

**yn rhoi ystyriaeth i ganllawiau Cwricwlwm 2008 a dogfennaeth aml asiantaethau perthnasol.
Bwriedir defnyddio'r pecyn fel arf i gynnal hyfforddiant i athrawon.**